BANNAU BRYCHEINIOG
EIN PARC CENEDLAETHOL

PROFIAD DARGANFOD AWYR DYWYLL

Awyr dywyll y nos gyda'r sêr yn pefrio yw un o'r golygfeydd mwyaf gogoneddus sydd gan natur i'w gynnig, yn dod â chi yn nes at ehangder y bydysawd a rhyfeddodau'r gofod.

Mae'r awyr uwchben ein parc yn un o'r rhai tywyllaf yn y byd – yn rhoi cyfle gyda'r gorau gewch chi i syllu ar y sêr a hynny mewn mannau gogoneddus. Rydyn ni'n falch o fod wedi cael y statws hynod o Warchodfa Awyr Dywyll Rhyngwladol, sy'n denu pobl o bell ac agos i ddarganfod awyr dywyll.

Canfod nifylau gyda'ch cyfeillion, planedau gyda'r plant, neu'n dwli ar sws dan y sêr, bydd y profiadol a'r rhai sy'n magu profiad wrth eu bodd o dan ein hawyr dywyll.

Mae yna gymaint o anturiaethau'n eich disgwyl ar noson glir yn y parc. Codwch eich golygon ac fe welwch y Llwybr Llaethog, y cytserau, y nifylau disglair, y clysterau a llawer mwy... Beth am ddianc i ganol swyn y sêr ar eich taith nesaf?

Dyma ddim ond rhai o'r mannau swynol lle gallwch weld rhyfeddodau awyr y nos.

10. Llyn Llangors

Llyn Llangors yw'r un mwyaf yn ne Cymru ac mae'n gartref i amrywiaeth o adar ac anifeiliaid. Mae syllu ar y sêr yno yn brofiad ryfeddol o natur, gyda synau o'ch cwmpas wrth i ddyfrgwn, llygod y gwair ac adar y dŵr fynd drwy'u pethau yn ystod y nos.

Gyda chlytwaith o wyrddni bryniau, dolydd a gwrychoedd o'ch cwmas, mae Llangors yn lle hynod o brydferth gyda digonedd o le i osod telesgopau. Mae mewn pant gwastad a ffurfiwyd gan rewlif, gyda gorwelion da a golygfeydd clir i bob cyfeiriad.

Mae cymaint i'w weld ac i'w wneud ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gyda digonedd o leoedd i aros, ewch at www.breconbeacons.org/cy

GWYCH AM:	PENTREF AGOSAF:	CYFESURYNNAU:	MAINT CYFYNGOL:
PROFIAD ARBENNIG O NATUR YN YSTOD Y NOS I SÊR SYLLWYR O BOB LEFEL.	LLANGORS	SO 127270 N 51.56.07 W 03.16.13	6.24

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Day2Stay
Cambrian Mountains
Ymddiriedolaeth Cwm Elan Elan Valley Trust
Dŵr Cymru Welsh Water
Bannau Brycheiniog
Powys
Brecon Beacons Tourism

BANNAU BRYCHEINIOG

EIN PARC CENEDLAETHOL

PA FATH O BETHAU ALLWCH CHI EU GWELD YN YR AWYR DYWYLL GYDA...

TELESGOP BYCHAN: Os gallwch chi gael gafael ar delesgop bychan, bydd byd o sêr dwbl, nifylau a chlystyrau agored llai yn agor o flaen eich llygaid. Cewch weld y clwstwr dwbl yn Perseus a'r llawer o glystyrau yn Auriga a Cassiopeia. A gallwch weld hefyd nifylau planedau fel y Nifwl Dymbel yn yr Alarch a'r Nifwl Cylch yn Lyra yn ogystal â nifiylau mwy llachar megis Orion. Gyda thelesgop bychan, mae'r Lleuad a'r planedau'n dangos eu rhyfeddodau, cylchoedd Sadwrn, cymylau lau a'i bedwar lleuad mwyaf, Wranws a Neifion, cyfnodau Gwener a Mercher a chlystyrau crwn fel y clwstwr mawr crwn yn Hercules.

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Brecon Beacons National Park

PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG
BRECON BEACONS NATIONAL PARK

Lleoliadau Awyr Dywyll

1. Cronfa Ddŵr Wysg SN 835285 N51.56.58 W03.41.55
2. Cronfa Ddŵr Crai SN 886210 N51.54.52 W03.35.12
3. Priordy Llanddewi Nant Hodni SO 288278 N51.56.41 W03.02.11
4. Hay Bluff SO 239373 N 52.01.43 W03.06.34
5. Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol (Canolfan Fynydd) SN 978264 N51.56.02 W 03.28.40
6. Pen Rhiw Ddu SN 730192 N51.51.13 W03.50.31
7. Carreg Cennen SN 668193 N51.51.12. W03.56.02
8. Parc Gwledig Craig y Nos a Chastell Craig y Nos SN 840161 N51.50.16 W03.40.29
9. Mynydd Pen y Fâl SO 268167 N51.50.30 W03.03.34
10. Llyn Llangors SO 127270 N51.56.07 W03.16.13

Dark Skies Locations

1. Usk Reservoir SN 835285 N51.56.58 W03.41.55
2. Crai Reservoir SN 886210 N51.54.52 W03.35.12
3. Llanthony Priory SO 288278 N51.56.41 W03.02.11
4. Hay Bluff SO 239373 N 52.01.43 W03.06.34
5. National Park Visitor Centre (Mountain Centre) SN 978264 N51.56.02 W 03.28.40
6. Pen Rhiw Ddu SN 730192 N51.51.13 W03.50.31
7. Carreg Cennen SN 668193 N51.51.12. W03.56.02
8. Craig-y-nos Country Park and Craig Y Nos Castle SN 840161 N51.50.16 W03.40.29
9. Sugar Loaf Mountain SO 268167 N51.50.30 W03.03.34
10. Llangorse Lake SO 127270 N51.56.07 W03.16.13

Lleoliadau Machlud Haul

1. Cronfa Ddŵr Wysg SN 835285
2. Cronfa Ddŵr Crai SN 886210
3. Hay Bluff SO 239373 Maes Parcio Stone Castle
4. Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol SN 978264
5. Pen Rhiw Ddu SN 730 190 Maes Parcio'r olygfan
6. Mynydd Pen y Fâl SO 268167
7. Llyn Llangors SO 127270
8. Cockit Hill SO160283 Cilan ger golygfan Mynydd Llangors
9. Cilan Bwlch SO 132224
10. Golygfan Blaen Onneu SO 156170

Sunset Locations

1. Usk Reservoir SN 835285
2. Crai Reservoir SN 886210
3. Hay Bluff SO 239373 Stone Castle Car Park.
4. National Park Visitor Centre SN 978264
5. Pen Rhiw Ddu SN 730192 Look out Car Park.
6. Sugar Loaf Mountain SO 268167
7. Llangorse Lake SO 127270
8. Cockitt Hill SO 160283 Lay by Mynydd Llangorse viewpoint.
9. Bwlch Iayby SO 132224
10. Blaen Onneu Viewpoint SO 156170